Business-in-Wales.com

Annwyl Gyfaill,

Bob tro y byddwch yn mynnu defnyddio'r Gymraeg wrth i chi siopa, rydych yn helpu creu swyddi i siaradwyr Cymraeg.

Bob tro y byddwch yn gofyn am siarad Cymraeg mewn busnes, rydych yn helpu cryfhau'r economi Cymraeg.

Ond, wrth gwrs, nid yw'n hawdd cwyno bob tro bod angen.

Mae pawb yn frysur - pawb angen cael pethau wedi'u gwneud, a symud ymlaen. Oherwydd hynny, mae llawer iawn ohonom ni yn methu dweud y byddai well gynnon ni siarad Cymraeg - rydym yn gwybod y bydd hynny yn golygu aros neu gwyno neu gael ein sarhau.

Eto i gyd, trwy beidio **rydym wedi helpu creu sefyllfa** lle mae gormod o fusnesau yng Nghymru yn diystyru'r Gymraeg.

Rwan, mae ffordd o gwmpas y broblem hon - sydd yn cymryd fawr ddim o'ch amser, ond yn cael effaith pwerus iawn.

Anfon cerdyn post Business-in-Wales.com

Os ydych yn ymweld â busnes sydd heb arwyddion Cymraeg, neu sydd gyda gweithwyr sydd ddim yn medru'r Gymraeg, gwnewch nodyn o gyfeiriad post y busnes.

Wedyn, wrth gyrraedd adref, rhowch gerdyn post Business-in-Wales.com yn y post.

Mor syml â hynny! Nid ydych yn colli bron dim amser o gwbl, ond rydych yn gwneud safiad bydd yn helpu cryfhau'r economi Cymraeg ac felly dyfodol yr iaith ei hun...:-)

Sut mae cael cardiau post Business-in-Wales.com?

Y cwbl sydd angen ydy i chi lenwi'r ffurflen banc tros y tudalen (am £3 y mis neu fwy) a byddwch yn derbyn 10 cerdyn post Business-in-Wales.com pob mis.

Byddwch hefyd yn derbyn gwahoddiad i noson gymdeithasol misol lle bydd pawb yn treulio awr yn cyfeirio cardiau at fusnes y mis (i'w dosbarthu dros y pedair wythnos dilynol) cyn cael bwyd, diod ac ychydig o adloniant...:-)

Dwedwch wrth eich ffrindiau, a bydd modd i ni greu rhwydwaith cymdeithasol bydd yn newid wyneb busnes yng Nghymru!

Archeb Banc – Business-in-Wales.com

I'w dalu i gyfrif banc/To pay to the account for **CYMUNED**, rhif cyfrif/account number 91489224, côd didoli/sort code 40-08-09 - Banc HSBC, 19 Stryd Fawr, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1DH

Eich enw/Your name:
_____

Eich cyfeiriad/Your address: _____

_____

Eich cyfeiriad ebost/Your email address: _____

Eich banc/Your bank: _____

Cyfeiriad eich cangen lleol/Your local branch address: _____

_____

Côd didoli eich cyfrif/Your account sort code: _____

Rhif eich cyfrif/Your account number: _____

Dymunaf dalu/I wish to pay □ £3 □ £4 □ £5 □ £10 □ £15 **bob mis i gyfrif CYMUNED/**every month to the account of CYMUNED.

Y swm mewn geiriau/The sum in words: _____

Dyddiad taliad cyntaf/Date of first payment: _____

Y mae'r swm i'w dalu'n fisol hyd nes y cyfarwyddaf chi'n wahanol.
The sum is to be paid monthly until I instruct otherwise.

Arwyddwyd/Signature: _____

Dyddiad/Date: _____

Dychwelwch y ffurflen hon i
CYMUNED, 64 Stryd Fawr, Pwllheli, Gwynedd LL53 5RR